Jane Hutt AM/AC
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf: SF/JH/215/09

Helen Mary Jones AC
Cadeirydd
Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

29 Mehefin 2009

Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar ei ymchwiliad i 'Rhianta yng Nghymru a rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith'.

Annwyl Helen,

Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Rhianta ym mis Rhagfyr 2005. Ceisiodd y Cynllun sicrhau bod rhieni (mamau, tadau a gofalwyr) yng Nghymru'n cael y cyngor a'r cymorth y mae arnynt ei angen, trwy nodi'r hyn yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu ei wneud dros rieni hyd at fis Mawrth 2008.

Nod y Cynllun Gweithredu oedd:

- Codi proffil rhianta ymysg gwneuthurwyr polisi a'r bobl sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru;
- Hyrwyddo datblygu polisïau a gwasanaethau sy'n cynorthwyo mamau, tadau a gofalwyr;
- Cysylltu â pholisïau a gweithgareddau eraill sy'n berthnasol i rianta; a
- Nodi camau gweithredu allweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd er mwyn cefnogi rhianta yng Nghymru.

Roedd y Cynllun Gweithredu Rhianta'n cynnwys 10 pwynt gweithredu, ac at ei gilydd cafodd ei groesawu pan gafodd ei gyhoeddi. Mae'r Cynllun Gweithredu Rhianta wedi cael effaith gadarnhaol ac wedi helpu i godi proffil addysg a chymorth rhianta.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
correspondence.jane.hutt@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Mae cymorth i rieni wedi'i wreiddio ar draws nifer o bortffolios ac mae rhianta'n cael ei brif ffrydio ar draws ystod o bolisïau a rhaglenni. Mae'r Cynllun Gweithredu Rhianta wedi bod yn fodd i ysgogi hyn.

Mae'r Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) yn dangos ein hymrwymiad i ddarparu cymorth i rieni trwy becyn o drefniadau. Yn benodol rhoi ar waith y Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICID) lleol i nodi a darparu cymorth cynharach i blant a theuluoedd agored i niwed er mwyn lleihau risg a gwella lles y plentyn.

Er fy mod yn hapus gyda'r effaith mae'r Cynllun Gweithredu Rhianta wedi'i chael, rwyf yn derbyn nad yw'r holl bwyntiau gweithredu wedi cael eu cyflawni'n llwyr. Felly rwyf yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'i argymhellion.

Nodir yr ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:

ARGYMHELLIAD 1
Mae'r Pwyllgor yn argymell:
Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru benodi "hyrwyddwr rhianta" i wneud y canlynol:

- codi proffil rhianta;
- sicrhau arweiniad cryfach a chydlynu gwell rhwng adrannau'r llywodraeth;
- cael gwared â'r stigma sy'n gysylltiedig â chais gan rieni am gymorth a chyngor; a
- llunio "Brand Rhianta Cenedlaethol" cydnabyddedig ar gyfer yr holl weithgareddau a gynhelir i gynorthwyo rhieni, gan gynnwys llinell gymorth genedlaethol, ddwyieithog i rieni, gwefan genedlaethol annibynnol gyda chyngor i rieni a gaiff ei rhedeg mewn partneriaeth â sefydliadau'r sector gwirfoddol, ac ymgyrch gwybodaeth am rianta gadarnhaol. Mae Galw Iechyd Cymru yn darparu model ar gyfer y math hwn o frandio.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor – er mwyn codi proffil rhianta yng Nghymru a chefnogi'n llawn y buddion y gall rhianta cadarnhaol eu cael ym mywydau plant. Fodd bynnag, rwyf yn awyddus i weithredu argymhellion ac arferion y gellir eu mesur a cherrig milltir a all gael effaith uniongyrchol ar wneud gwahaniaeth a hoffwn drafod gyda'r Pwyllgor a rhanddeiliaid allweddol sut y gallem adlewyrchu hyn wrth fod yn 'hyrwyddwr' dros rieni. Rwyf yn arbennig o awyddus i godi proffil rhianta gyda'r rhieni anoddaf eu cyrraedd sy'n byw o dan amgylchiadau anodd ac sydd ag anghenion lluosog a chymhleth ac i ddefnyddio adnoddau i helpu rhianta yn enwedig trwy amgylchiadau anodd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cytuno bod angen codi proffil rhianta ac mae wedi sefydlu gwell perthnasoedd gwaith o fewn Llywodraeth y Cynulliad a gyda rhanddeiliaid allanol. Yn ein dogfennau cyfarwyddyd, 'Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau' (Awst 2006) a 'Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau' (Medi 2007) pwysleisiasom bwysigrwydd cyfranogi gan rieni a gofalwyr yn y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol ac wrth baratoi eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (CPPI). Byddwn yn parhau i gasglu arferion da yn ogystal â rhoi adborth unigol i'r Partneriaethau, gan weithio gyda'r Uned Cefnogi Partneriaethau i nodi'r arferion da hyn a'u lledaenu'n ehangach.

Mae adrannau'r Llywodraeth yn cydweithio'n agos i gynnwys rhieni mewn nifer o feysydd polisi allweddol megis Ysgolion Bro, ac wrth ddatblygu'r Fframwaith ar gyfer Iechyd y Cyhoedd gyda'r Proffesiynau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd i fynd i'r afael â heriau i wella iechyd y cyhoedd fel mae'n effeithio ar rianta. Cynhelir ymarfer pellach i nodi pob adran a maes polisi sydd â chysylltiad portffolio â rhieni. A byddwn yn parhau i gyflawni ymgyrch gwybodaeth am rianta cadarnhaol.

Rwyf yn cefnogi'r argymhelliad i ddatblygu "Brand Rhianta Cenedlaethol" a byddaf yn chwilio am ffyrdd y gellid datblygu hyn a'i hyrwyddo ar draws yr holl ddogfennau mewnol ac allanol.

Goblygiadau ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

ARGYMHELLIAD 2
Mae'r Pwyllgor yn argymell:
2.1 Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddweud a oes unrhyw gamau gweithredu nas cwblhawyd yn y Cynllun Gweithredu Rhianta gwreiddiol nad yw'n bwriadu ymdrin â hwy bellach, a rhoi rhesymau am hynny.
2.2 O ran y camau gweithredu hynny y bwriada Llywodraeth Cynulliad Cymru eu datblygu o'r Cynllun Gweithredu Rhianta gwreiddiol, y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lunio amserlen glir ar gyfer eu cyflawni. Dylid, yn bennaf, gynnwys y canlynol:

- Llinell gymorth rhianta genedlaethol, gyfrinachol, ddwyieithog, 24 awr, am ddim a gaiff ei hysbysebu'n dda, ei hyrwyddo'n gadarnhaol ac a ddatblygir mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol. Dylai'r gwasanaeth hwn fod yn gyfrinachol. Dylai allu rhoi gwybodaeth i rieni am wasanaethau rhianta lleol a dylai, ar gais rhiant, allu cyfeirio rhieni at wasanaeth penodol. Dylai'r llinell gymorth ddwyieithog gael ei brandio â'r brand Rhianta Cenedlaethol.
- Dosbarthu llyfrynnau rhianta a luniwyd drwy'r Cynllun Gweithredu Rhianta (gan gynnwys 'O Amser Brecwast i Amser Gwely', 'Ymddygiad Dros Ben Llestri mewn Plant Dan Ddeg' a 'Help Wrth Law') drwy'r broses gynenedigol ac ar ddiwrnod cyntaf y plentyn yn yr ysgol. Dylai llyfrynnau gael eu brandio â'r brand Rhianta Cenedlaethol.
- Gwefan benodol, annibynnol, nad yw'n rhan o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda gwybodaeth am sgiliau rhianta ar gyfer rhieni. Dylai'r wefan hon gynnwys rhif ffôn y llinell gymorth rhianta ddwyieithog. Dylai gynnwys gwybodaeth am wasanaethau rhianta lleol. Dylai gynnwys cyfeiriadau syml heb i ddefnyddwyr orfod mynd drwy nifer o dudalennau i gael gwybodaeth. Dylai gael ei brandio â'r brand.

Ymateb: Derbyn

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn.

O'r deg cam gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Rhianta, cyflawnwyd saith yn llwyr, cyflawnwyd dau yn rhannol, ac ni chyflawnwyd un.

Pwynt gweithredu 2 – Byddwn yn datblygu a dosbarthu cyfres o lyfrynnau ar gyfer pob rhiant newydd.

Mae'r amcan hwn wedi cael ei gyflawni. Fel y nodir yn y dystiolaeth i'r pwyllgor cyhoeddwyd tri llyfryn yn y gyfres 'Magu Plant yn Hyderus'. Mae 'O Amser Brecwast i Amser Gwely' a 'Help wrth Law' yn dal i gael eu dosbarthu i rieni newydd, oddeutu pedair i chwe wythnos ar ôl yr enedigaeth, gan eu hymwelwyr iechyd. Mae'r trydydd llyfryn, 'Ymddygiad Dros Ben Llestri mewn Plant Dan Ddeg', wedi'i anelu at rieni plant rhwng 6 a 10 oed, ac mae'n cael ei ddosbarthu trwy ysgolion i rieni holl ddisgyblion Blwyddyn 1. Caiff ei ddosbarthu am drydedd flwyddyn yn ystod 2009. Mae copïau o'r llyfrynnau hyn hefyd ar gael oddi wrth y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn ardal pob awdurdod lleol, ac maent wedi cael eu hanfon i unedau cyfeirio disgyblion, yn ogystal â Dechrau'n Deg a phrosiectau eraill sy'n canolbwyntio ar rieni.

Mae gwaith ailargraffu mawr y llynedd yn golygu bod y llyfrynnau ar gael i bob rhiant newydd am y ddwy flynedd nesaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ymgynghorir â'r bobl fydd yn eu cael a'r

gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â hwy ynglŷn â'u gwerth gyda golwg ar eu cyhoeddi ymhellach.

Pwynt gweithredu 3 – Byddwn yn sefydlu Gweithgor i ystyried adroddiad Cronfa Beth Johnson ar deidiau a neiniau a chynnig rhaglen weithredu fras i gael ei chynnwys yn nhrydedd flwyddyn y Cynllun Gweithredu Rhianta a'i gysylltu â Cham Dau o'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn.

Mae'r amcan hwn wedi cael ei gyflawni'n rhannol – Ar fod yn daid a nain, erys rhywfaint o waith i'w wneud o hyd. Mae cyfle bellach yn Neddf Plant a Phobl Ifanc 2008 a allai gynnig fframwaith ar gyfer y gofal a roddir gan deuluoedd a chyfeillion. Mae Gwenda Thomas yn bwrw ymlaen â hynny. Yn y canllawiau ar bontio'r cenedlaethau, rydym yn cydnabod y rôl mae teidiau a neiniau'n ei chwarae i gryfhau'r teulu. Bydd y gwaith hwn yn parhau i gael ei ddwyn ymlaen, gyda chydnabyddiaeth o rôl teidiau a neidiau wrth gynorthwyo rhieni'n cael ei chynnwys yn y canllawiau ar rôl pontio'r cenedlaethau wrth gryfhau'r teulu, sy'n cael eu llunio ac y bwriedir eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2009.

Pwynt gweithredu 10 – Byddwn yn datblygu Rhwydrhieni ymhellach i sicrhau ei bod yn addas i bob rhiant, gan gynnwys y rhai sy'n llai addysgedig neu'n llai hyddysg.

Mae'r amcan hwn wedi cael ei gyflawni'n rhannol – rhoddir gwybodaeth ar gyfer rhieni ar dudalennau Addysg gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae cynnwys blaenorol sy'n berthnasol i rieni wedi cael ei ailysgrifennu ac mae cynnwys newydd wedi cael ei ychwanegu. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r dulliau cyfathrebu mwyaf priodol gan gynnwys gwefannau i gyfathrebu gyda rhieni a darpar rieni.

Pwynt gweithredu 1 – Byddwn yn datblygu llinell gymorth ddwyieithog genedlaethol i rieni.

Nid yw'r pwynt gweithredu hwn wedi cael ei gyflawni. Ar adeg lansio'r cynllun gweithredu, roeddem wedi'n hymrwymo i gael ein cynnwys yn narpariaeth Llinell Rhieni a Mwy Llywodraeth y DU. Mae Llinell Rhieni a Mwy yn dal i gymryd galwadau o Gymru ac ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn trafod gyda swyddogion yn yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd i ddod o hyd i ffyrdd o wella mynediad i siaradwyr Cymraeg i'r gwasanaeth sy'n bodoli eisoes.

Goblygiadau ariannol:
Pwynt gweithredu 1 – Amcangyfrif o'r costau cylchol blynyddol yw £400,000 a hefyd £135,000 ychwanegol i dalu costau sefydlu.
Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r camau gweithredu eraill a nodir. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

ARGYMHELLIAD 3
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

3.1 Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru lunio Strategaeth Rianta gyffredinol a Chynllun Gweithredu Rhianta wedi'i ddiweddaru.

3.2 Y dylai'r Cynllun Gweithredu Rhianta wedi'i ddiweddaru ymgorffori'r camau gweithredu nas cwblhawyd yn y Cynllun Gweithredu Rhianta gwreiddiol (gweler Argymhelliad 2).

3.3 Y dylai'r strategaeth a'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru hefyd ystyried polisïau newydd er mwyn dwyn ynghyd waith rhianta.

3.4 Y dylai'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru hefyd nodi camau gweithredu penodol er mwyn cynorthwyo tadau; teidiau a neiniau; rhieni plant hŷn/plant yn eu harddegau; rhieni anabl; rhieni plant sydd ag anableddau; rhieni a phartneriaid rhieni sydd yn y carchar ac o dan

warchodaeth; rhieni ifanc; rhieni sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau; a rhieni o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Dylai hefyd gynnwys gofalwyr maeth lle y bo'n briodol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Rwyf yn cydnabod mantais darparu strategaeth gyffredinol a byddwn yn ceisio datblygu Strategaeth Rianta newydd i Gymru. Fodd bynnag, nid wyf yn meddwl y gall cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru fynd i'r afael â'r holl agweddau ar rianta a chymorth yr hoffem eu cyfleu.

Bydd y camau gweithredu nas cwblhawyd yn cael eu hystyried ochr yn ochr â datblygu'r strategaeth a bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i roi cymorth yn ôl yr angen ledled Cymru yn unol â'r anghenion a nodir yn lleol. Bydd y Strategaeth Rianta'n ystyried polisïau newydd ac yn dwyn ynghyd waith rhianta.

Bydd y Strategaeth Rianta'n ystyried anghenion amrywiol pob rhiant gan gynnwys y rhai a restrir yn argymhelliad 3.4. Byddwn yn parhau i gydweithio gydag adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad i greu'r strategaeth rianta orau posibl sy'n diwallu anghenion pob grŵp, fel y'u nodir.

Goblygiadau ariannol: Cost cyflenwi strategaeth rianta newydd – bydd yn rhaid i hyn gael ei ystyried mewn trafodaethau gydag aelodau'r Cabinet.

ARGYMHELLIAD 4
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau y caiff y Strategaeth Rianta gyffredinol a'r Cynllun Gweithredu Rhianta wedi'i ddiweddaru eu hariannu'n llawn ac yn briodol, gan nodi'n glir y ffynonellau ariannu ar gyfer cyflawni pob pwynt gweithredu.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Roedd y cynllun gweithredu a llawer o'r canlyniadau trwy raglenni yr oeddem yn eu hariannu. Mae angen i ni gymryd sylw o'r ffaith bod grant o £27 miliwn yn cael ei ddosbarthu i'n partneriaethau plant a phobl ifanc ar gyfer Dechrau'n Deg; o'r arian hwn, mae £1.7 miliwn ar gyfer rhaglen rianta Dechrau'n Deg. Mae dros £200 miliwn o arian Cymorth wedi mynd i awdurdodau lleol, a gwariwyd £17 miliwn o'r arian hwn yn 2007-08 ar gymorth i deuluoedd ledled Cymru o dan y thema allweddol cymorth i deuluoedd. Rydym hefyd wedi cynorthwyo nifer o brosiectau, megis Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru a gwerthusiadau gan brifysgolion Bangor, Caerdydd a Warwick o effeithiolrwydd y rhaglenni rhianta, gyda mwy na £266,000 o arian grant.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i ddatblygu Strategaeth Rianta a fydd yn cynnig cyfle mwy o lawer i ystyried y materion amrywiol sy'n effeithio ar rieni, gan ystyried anghenion amrywiol pob rhiant. Bydd y strategaeth yn cyfleu barn Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn parhau i hyrwyddo rhianta cadarnhaol ond bydd yn mynd ymhellach er mwyn ystyried; cymorth i rieni; cymorth ar gyfer magu plant; a chymorth ehangach i'r teulu.

Nod y Strategaeth Rianta fydd hyrwyddo rhianta cadarnhaol sy'n cael effaith ar bob cyfnod ym mywyd plentyn, i helpu i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cael ei werthfawrogi yn y teulu.

Goblygiadau ariannol: Cost cyflenwi strategaeth rianta newydd – bydd yn rhaid i hyn gael ei ystyried mewn trafodaethau gydag aelodau'r Cabinet.

ARGYMHELLIAD 5
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru nodi cyfanswm y gwariant ar gymorth rhianta a sicrhau bod mwy o dryloywder ac eglurdeb ynglŷn â gwariant ym mhob adran yn genedlaethol ac yn lleol. Dylai hyn fod yn rhan o'r gyllideb flynyddol a'r broses o ddyrannu arian.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor.

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Nodais gyfle i ddwyn ynghyd y meysydd ariannu yn y Cynllun Gweithredu Rhianta a'r rhaglenni sydd wedi deillio ohono dros y tair blynedd diwethaf, wrth i mi roi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Yn amgaeedig yn Atodiad 1 mae'r proffil o'r gwariant ar gyfer y 3 blynedd diwethaf.

Goblygiadau ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

ARGYMHELLIAD 6
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal ymgyrch wybodaeth ac addysg gyhoeddus fawr i hyrwyddo rhianta cadarnhaol a didreisedd tuag at blant ymysg y boblogaeth ehangach. Dylai hon gyfeirio rhieni at wybodaeth am wasanaethau cymorth ymarferol lleol i rieni. Dylai gael ei brandio â'r brand Hyrwyddwr Rhianta. Dylai hefyd roi hysbysrwydd clir i'r llinell gymorth ddwyieithog.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ceisio hyrwyddo rhianta cadarnhaol trwy ein Cynllun Gweithredu Rhianta a thrwy gefnogi Cynghrair 'Sdim Curo Plant (CAU) yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr o hyd i nodau ymgyrch 'Sdim Curo Plant i roi i blant a phobl ifanc yr un amddiffyniad o dan y gyfraith ag oedolion, ac yn ddiweddar rydym wedi ymrwymo i'r datganiad canlynol:

Rydym wedi ymrwymo o hyd i alwad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn am waharddiad byd-eang ar gosbau corfforol a fydd yn:

- *cyflawni hawliau dynol plant*
- *lleihau trais yn erbyn plant*
- *gwneud amddiffyn plant yn fwy effeithiol*
- *rhoi sylfaen ar gyfer hyrwyddo disgyblaeth gadarnhaol sy'n gweithio*

Mae gennym bolisi hirsefydlog o wrthwynebu cosbau corfforol a hyrwyddo dulliau disgyblu cadarnhaol, di-drais. Rydym yn derbyn argymhelliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylid dileu'r amddiffyniad 'cosb resymol', fel y gall plant a phobl ifanc gael yr un amddiffyniad o dan y gyfraith ag sydd gan oedolion.

Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth i rieni plant a phobl ifanc rhwng 0 a 19 oed ynglŷn â gofal plant a gwasanaethau eraill i'w cynorthwyo yn eu rôl rhianta. Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd hygyrch, diduedd i rieni a theuluoedd. Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth i rieni a allai ei chael yn anodd fel arall cael y cymorth y mae arnynt ei angen, gan gynnwys cysylltu â phartneriaid er mwyn cynyddu'r nifer o deuluoedd difreintiedig a theuluoedd incwm isel sy'n cael cymorth. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd efallai wedi'u hallgau'n gymdeithasol, gan gynnwys cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, rhai nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, rhieni plant ag anableddau, ffoaduriaid, ceiswyr lloches, teuluoedd â rhieni sy'n anabl neu â salwch meddwl, a theithwyr.

Darperir gwybodaeth a chymorth i bawb sydd ei angen gan gynnwys tadau yn ogystal â mamau ac i ofalwyr yn ogystal â rhieni naturiol.

Goblygiadau ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

ARGYMHELLIAD 7
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

7.1 Yn dilyn ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni a gofalwyr o'r wybodaeth sydd ar gael iddynt drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ledled Cymru, y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fonitro ymwybyddiaeth o'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ymysg y cyhoedd yng Nghymru.

7.2 Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd alluogi'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i gael eu brandio â brand yr Hyrwyddwr Rhianta.

Ymateb: Derbyn

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae ymgyrch marchnata ar y gweill ar hyn o bryd ac rydym yn cysylltu'n barhaus â'r tîm Marchnata a Chydgysylltwyr y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae hyn yn cynnwys datblygu llinell gymorth genedlaethol y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

Byddwn yn gallu monitro'r ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd trwy gyfarfodydd rhwydwaith chwarterol lle gofynnir am adborth.

Os bydd cytundeb byddwn yn galluogi'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a'i ddeunydd hyrwyddol i gael eu brandio â'r Brand Rhianta Cenedlaethol.

Goblygiadau ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

ARGYMHELLIAD 8
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad clir, statudol gan roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ac ysgolion o ran cynnwys rhieni mewn ysgolion, gan ystyried patrymau gwaith llawer o rieni yn ystod y dydd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Er bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicr yn cefnogi mwy o ran i rieni mewn ysgolion, teimlwn fod yna ganllawiau statudol a chanllawiau eraill eisoes i gynorthwyo i gyflawni'r amcan hwn, gan gynnwys canllawiau ar strategaethau i ymgysylltu â rhieni. Yn ddiweddar cyflwynodd Estyn adroddiad ar gynnwys rhieni mewn ysgolion cynradd. Yn ei adroddiad (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2009), canfu mai'r gyrrwr pwysicaf unigol ar gyfer sicrhau cynnwys rhieni'n effeithiol yw brwdfrydedd y pennaeth. Mae'r pennaeth effeithiol yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng rhieni ac ysgolion ac yn cefnogi ffyrdd arloesol ac amrywiol o helpu rhieni i ddeall y cwricwlwm a'u cynnwys yn y gwaith o hyrwyddo a chefnogi gwell safonau cyflawniad. At hynny, canfu Estyn, ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw bron, fod y rhan fwyaf o'r rhieni'n dweud nad ydynt yn hoffi bod ar bwyllgorau nac yn hoffi mynychu cyfarfodydd ffurfiol, ond eu bod yn barod i helpu, ac yn helpu, gyda thasgau ymarferol.

Mae ymgysylltu â rhieni'n allweddol i Effeithiolrwydd Ysgolion. Nod y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yw gwella profiadau addysgol a chyfleoedd bywyd i bob plentyn a pherson ifanc. Gwneir hyn drwy wella perfformiad gorau, a chau'r bwlch rhwng yr ysgolion hynny sydd fwyaf effeithiol wrth ychwanegu gwerth at ganlyniadau eu plant a'u pobl ifanc a'r rhai sy'n llai effeithiol. Mae cynnwys rhieni/gofalwyr yn rhan annatod o'r broses hon. Dylid cynnwys rhieni mewn cydweithredu i wella dysgu plant a phobl ifanc a'u cynnwys mewn penderfynu ar bolisi a chyfeiriad strategol ysgolion. Mae her arbennig i ysgolion o ran ymgysylltu â grwpiau anoddach eu cyrraedd.

Mae gan lywodraethwyr ysgolion gyfrifoldebau statudol eisoes am gynnwys rhieni ar eu byrddau llywodraethu a pharatoi adroddiadau a chyfarfodydd blynyddol i rieni. Mae llawer o gyrff llywodraethu'n mynd ymhellach na'u cyfrifoldebau statudol. Mae ganddynt drefniadau ar gyfer hysbysu ac ymgynghori â rhieni a'u cynnwys yng ngwaith yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r trefniadau hyn yn cael eu cyflawni gan y pennaeth, fel rhan o waith rheoli'r ysgol o ddydd i ddydd. Cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw adolygu, gyda'r pennaeth, pa mor effeithiol y mae'r rhain yn hyrwyddo cysylltiadau da rhwng yr ysgol a'r rhieni.

Rydym yn credu mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd ymlaen yw trwy adeiladu ar y strategaethau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad eisoes

1. Fel rhan o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, bydd APADGOS ar y cyd gyda CCAC a Llywodraethwyr Cymru'n rhoi canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol i hybu datblygu systemau i gynnwys rhieni wrth benderfynu ac wrth gydgysylltu gwasanaethau'n strategol
2. Fel rhan o raglenni grant arloesol Ysgolion Bro a Chronfa Ysgolion Gwell, bydd APADGOS yn datblygu a lledaenu modelau ac arferion ar gyfer cynnwys rhieni'n effeithiol megis cyfarfodydd dosbarth, grwpiau gweithredu/buddiant, fforymau rhieni a chynghorau rhieni
3. Fel rhan o'r rhaglen Rhagori yn 2009-10, bydd rhai grwpiau o ysgolion yn datblygu a lledaenu arferion da o ran ymgysylltu â rhieni'n fwy effeithiol mewn ardaloedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Goblygiadau ariannol: Dim – byddwn yn parhau i adeiladu ar y strategaethau sy'n bodoli eisoes wedi'u hariannu o fewn cyllidebau'r rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

ARGYMHELLIAD 9
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu astudiaethau ansoddol hirdymor ar amrywiaeth o raglenni rhianta. Dylai ddefnyddio'r un meini prawf i werthuso a chymharu rhaglenni rhianta. Yn benodol, dylai neilltuo adnoddau i werthuso prosiectau Home Start yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddarparu arian ar gyfer ymchwil a gwerthuso rhaglenni rhianta, gan gydnabod yr angen am sail tystiolaeth gadarn a all lywio datblygiadau yn y dyfodol. Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor mae hyn yn cynnwys:

- *Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru* – yn cael £100,000 dros dair blynedd i werthuso ymyriad newydd i rieni babanod a phlant bach o enedigaeth i 36 mis sy'n hyrwyddo rhianta cadarnhaol ac yn lleihau'r risg y bydd plant yn datblygu problemau ymddygiadol ac emosiynol gan gynnwys anhwylder ymddygiad.

- *Cysylltiadau Teuluol* - £100,000 dros 3 blynedd tuag at gost gwerthuso Rhaglen 'Parent Nurturing Family Links'. Gwerthusiad arwyddocaol ac arloesol yw hwn a gomisiynwyd ar y cyd gydag ardaloedd pedwar awdurdod lleol (Caerdydd, Casnewydd, Torfaen a Chaerffili) trwy eu Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Bydd tystiolaeth y gwerthusiad yn llywio penderfyniad ynghylch a ellir cynnwys y rhaglen hon, sy'n cael ei rhedeg yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hyn ar hyn o bryd, ymysg rhaglenni cymeradwy Dechrau'n Deg.

- *Prifysgol Caerdydd* – Mae £136,021 wedi cael ei ddyfarnu i Brifysgol Caerdydd dros 3 blynedd i ymestyn yr ymchwil sy'n cael ei gwneud gan Dr Gordon Harold i'r effeithiau y mae gwrthdaro rhwng rhieni'n eu cael ar blant. Bydd yr ymchwil yn asesu effeithiolrwydd rhaglen addysgu rhieni, gan ganolbwyntio'n benodol ar effaith perthnasoedd teuluol ar les emosiynol ac ymddygiadol plentyn yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Bydd tystiolaeth o'r ymchwil yn disgrifio'r cysylltiad rhwng profiadau plant yn y cartref a'u datblygiad emosiynol, ymddygiadol ac academaidd hirdymor. Ei nod yw dangos effaith yr amgylchedd teuluol ar les a chyflawniad academaidd plentyn, gyda golwg ar lywio datblygiad polisi a rhaglenni cymorth i rieni.

- *IPSOS MORI a SQW* – Yn ogystal, rydym bellach yn ail flwyddyn gwerthusiad ansoddol hirdymor o raglenni Cymorth a Dechrau'n Deg gan gonsortiwm o dan arweiniad IPSOS MORI a SQW. Un o themâu'r astudiaeth yn 2008-09 yw cyflenwi rhaglenni rhianta yn rhaglenni Cymorth a Dechrau'n Deg. Mae'r astudiaeth thematig hon o raglenni rhianta Dechrau'n Deg a Cymorth i fod i ddod i law yn haf 2009.

Mae hefyd yn ofynnol i bob awdurdod lleol neilltuo 2% o arian Cymorth i werthuso, a fydd yn cynnwys gwerthuso rhaglenni rhianta.

Goblygiadau ariannol: Dim – byddwn yn parhau i adeiladu ar y strategaethau sy'n bodoli eisoes wedi'u hariannu o fewn cyllidebau'r rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

ARGYMHELLIAD 10
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru archwilio'r posibilrwydd o gryfhau'r trefniadau ar gyfer rhannu arferion da ledled Cymru, a nodi a rhannu arferion da o enghreifftiau rhyngwladol.

Ymateb: Derbyn

Rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Ymhob man yng nghanfyddiadau a chrynodeb y Pwyllgor mae enghreifftiau o arferion da. Rwyf yn cytuno y dylid rhannu'r enghreifftiau hyn ledled Cymru. Byddwn yn defnyddio'r gwasanaethau mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn eu darparu i barhau i dynnu sylw at y llwyddiannau hyn. Wrth i'r Strategaeth Rianta gael ei datblygu'n lleol bydd fy Adran yn nodi ac adolygu enghreifftiau cenedlaethol a rhyngwladol o arferion da sy'n cael eu defnyddio mewn rhannau eraill o'r byd.

Goblygiadau ariannol: Dim – byddwn yn parhau i adeiladu ar y strategaethau sy'n bodoli eisoes wedi'u hariannu o fewn cyllidebau'r rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

ARGYMHELLIAD 11
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud datganiad clir y dylai gweithwyr proffesiynol, wrth benderfynu torri'r rheol cyfrinachedd er mwyn diogelu'r plentyn dan sylw neu blant eraill rhag

perygl o niwed difrifol, ddiystyru rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar gefndir economaidd neu gymdeithasol y rhieni, a gwneud penderfyniad ar bob achos yn unigol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Fel mae'r Pwyllgor wedi cydnabod, mae canllawiau ar faterion yn ymwneud â chyfrinachedd mewn achosion amddiffyn plant wedi'u nodi'n fras yn y ddogfen Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004. Mae'n hanfodol bod pobl sydd â phryderon ynglŷn â lles plentyn, ac yn benodol lle y gallai fod pryderon ynglŷn â chamdriniaeth neu esgeulustod posibl, yn teimlo bod ganddynt ddigon o hyder yn yr awdurdodau statudol i gyflwyno eu barn. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod ei bod yn bosibl, mewn rhai achosion, y gall peidio â rhannu gwybodaeth, a hynny ar adeg gynnar iawn, greu goblygiadau difrifol o ran lles y plentyn. Mae'r gyfraith yn caniatáu datgelu gwybodaeth gyfrinachol os yw'n angenrheidiol i ddiogelu plentyn neu blant er budd y cyhoedd, felly gall budd y cyhoedd o ran amddiffyn plant fod yn bwysicach na budd y cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi creu, trwy Ddeddf Plant 2004, drefniadau a strwythurau sy'n cryfhau gweithio rhyngasiantaethol ac yn hyrwyddo cydweithredu gyda golwg ar wella lles plant. Un agwedd bwysig ar hyn yw bod gwybodaeth yn llifo'n effeithiol er mwyn sicrhau y gall yr holl asiantaethau weithio gyda'i gilydd. Mae effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn hollbwysig i les y plentyn, ac wrth sicrhau mai pennaf les y plentyn sydd wrth wraidd unrhyw benderfyniadau a wneir ynglŷn â'i les, a rhaid peidio â'u peryglu.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i roi i blant a phobl ifanc y cychwyn gorau posibl mewn bywyd trwy hybu eu lles a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r cyfrifoldeb am amddiffyn plant fynd ymhellach na'r asiantaethau statudol ac i'r gymdeithas yn gyfan, ac mae gan y cyhoedd ran ganolog i'w chwarae. Drwy'r trefniadau newydd ar gyfer Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICID), bydd y trothwy ar gyfer cyfeirio plant sy'n byw gyda rhieni sydd â chyflyrau rhagnodedig, er enghraifft camddefnyddio sylweddau, yn is. Bydd yn ofynnol i weithwyr proffesiynol ystyried a yw cyflwr y rhiant megis iselder acíwt yn golygu bod y plentyn mewn angen a byddent yn ceisio cydsyniad y rhiant i wneud cyfeiriad i wasanaethau plant am asesiad a chymorth. Byddai'r trothwy niwed arwyddocaol, fodd bynnag, yn parhau i fod yn bwysicach na dyletswydd y gyfraith gyffredin a gofynion y Ddeddf Diogelu Data mewn perthynas â chydsyniad. Bydd TICID yn cynnig cymorth cynharach i'r rhieni hynny sydd ag anghenion cymhleth fel y gellir darparu cymorth cynharach i'r teulu cyfan er mwyn lleihau risg, ymdrin â'r pryder ynglŷn â lles y plentyn.

Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol o unrhyw achosion lle mae rhieni neu oedolion sy'n hysbysu'r asiantaethau statudol am eu pryderon yn credu eu bod wedi cael eu trin yn wahanol oherwydd eu hamgylchiadau neu eu cefndir. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bawb fod yn gwbl hyderus eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch pan gaiff pryderon am blentyn eu codi. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth uniongyrchol i'r gwrthwyneb, ond byddwn yn ystyried beth ellid ei wneud yng nghyd-destun yr adolygiad cyfredol o'r trefniadau diogelu yng Nghymru i sicrhau bod y bobl hynny sy'n gweithio ym maes amddiffyn plant yn ymwybodol o'r angen am driniaeth gyfartal o dan bob amgylchiad.

Goblygiadau ariannol: Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.